CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
09/10/26

Presenoldeb:

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Y Cynghorwyr: Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), ac Ifor Glyn Lloyd (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Weithredwyr y Cynghorau Cyfansoddol: David Fitzsimon (Cyngor Sir y Fflint), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych), a Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig (y CBC)), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Mark Watkins (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro Dros Dro – Uchelgais Gogledd Cymru), Helen Edwards (Dirprwy Swyddog Monitro – Uchelgais Gogledd Cymru), David Hole (Rheolwr Rhaglen Weithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau – Uchelgais Gogledd Cymru), Lowri Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Rhun ap Gareth a Jenny Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Helen White (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)
- Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid – Cyngor Gwynedd)
- Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portffolio – Uchelgais Gogledd Cymru)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, y Prif Weithredwr.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Adroddwyd bod Adroddiad Blynyddol 2025/26 yn rhoi trosolwg o flwyddyn arwyddocaol i'r CBC ac i Uchelgais Gogledd Cymru. Nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn swyddogaethau allweddol ac adroddwyd hefyd am benodi Prif Weithredwr llawn amser, Cyfarwyddwr Portffolio, cynghorwyr anweithredol, ac arweinwyr Trafnidiaeth a Chynllunio penodol.

Amlygwyd y cynnydd, gan gynnwys: cymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; cynnydd gyda Chytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol; lansio Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam; parhau i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru; gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol; gwaith y Tîm Ynni Strategol; a chyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin Ranbarthol.

Adroddwyd ar lwyddiannau er budd yr aelodau. Nodwyd bod saith prosiect Cynllun Twf yn cael eu cyflawni ar gyfer 2025/26, ac roedd deg prosiect arall wedi cael eu cymeradwyo ac yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y Cynllun Twf wedi creu 121 o swyddi ac wedi cyflawni £34.21 miliwn o fuddsoddiad yn economi Gogledd Cymru. Tynnwyd sylw hefyd at ganlyniadau cryf o ran caffael yn lleol, gan nodi bod 86% o weithgaredd caffael y Cynllun Twf wedi'i roi i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru.

Cadarnhawyd y byddai cymeradwyo'r adroddiad yn fodd i'r CBC ddangos tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod 2025/26.

Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol sicrhau gwerth am arian waeth o ble yng Ngogledd Cymru y daw'r caffael, yn enwedig o ystyried bod arian cyhoeddus yn cael ei wario.

5. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr a Dave Hole, Arweinydd Rhaglen.

PENDERFYNWYD:

Nodwyd y cynnydd a'r heriau gyda rhaglen 2026/27.

Yng nghyd-destun trawsnewid a newid, na ddylai'r CBC dalu costau unrhyw rolau, swyddogaethau neu gyfrifoldebau ychwanegol a roddir iddo o'i adnoddau ariannol ei hun.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan nodi bod y Rhaglen yn parhau i gefnogi datblygiad parhaus y CBC fel corff cwbl weithredol ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'i weithwyr, i'r sefydliad. Pwysleisiwyd bod hon yn rhaglen aml-flwyddyn sydd wedi'i dylunio i adeiladu ar fodel gweithredu, llywodraethu, capasiti, systemau a threfniadau corfforaethol y CBC er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau statudol.

Adroddwyd bod cynnydd positif wedi parhau ar draws ystod eang o feysydd ers y diweddariad diwethaf, gan gynnwys capasiti corfforaethol, trefniadau cyfreithiol a llywodraethu, cyllid, TG, AD, gweithrediadau, polisi, caffael, trafnidiaeth a chynllunio. Tynnwyd sylw hefyd at gyflawniadau allweddol, megis penodi Cyfarwyddwr Portffolio, penodi Pennaeth Cyflawni'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), cynnydd gyda'r adolygiad cyfansoddiadol, cyflwyno cynlluniau archwilio, cyflawni'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cyhoeddi'r Polisi

Cyflogau, cynnydd gyda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a datblygu nifer o bolisïau a threfniadau corfforaethol allweddol.

Nodwyd bod y Rhaglen Trawsnewid a Gwella yn parhau i fod yn rhaglen heriol. Yn benodol, adroddwyd bod capasiti yn dal i fod yn gyfyngedig ac roedd y sefydliad yn ceisio cydbwyso gweithgarwch trawsnewid ochr yn ochr â gweithgareddau cyflawni dydd i ddydd. Rhestrwyd nifer o gyfyngiadau, gan gynnwys y ddibyniaeth barhaus ar genfogaeth partneriaid, cyfyngiadau cyllidebol, cyfyngiadau recriwtio, newidiadau system, a'r ffaith nad oedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi ei gwblhau'n ffurfiol.

Cadarnhawyd bod rhestr o waith blaenoriaeth ar waith ar gyfer gweddill y flwyddyn, ochr yn ochr â rhestr wrth gefn y gellid ei dwyn ymlaen os bydd capasiti yn caniatáu, neu fel arall byddai'r gwaith wrth gefn yn cael ei gario ymlaen i 2027/28. Pwysleisiwyd bod hyn yn adlewyrchu'r angen i gymryd agwedd ystwyth ond realistig at gyflawni tra'n parhau i adeiladu sylfeini'r sefydliad.

Nodwyd, pe bai unrhyw gyfrifoldebau, rolau neu swyddogaethau ychwanegol yn deillio o unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth arfaethedig, y dylai'r CBC sicrhau nad oes disgwyl iddo dalu'r costau o'i adnoddau ariannol ei hun.

6. CYNLLUN DEISEBAU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau.

TRAFODAETH

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r CBC sefydlu a chyhoeddi Cynllun Deisebau, gan ei fod yn nodi sut y gall unigolion godi materion gyda'r CBC. Eglurwyd bod y Cynllun hefyd yn egluro pwy all godi deiseb, sut y bydd yn cael ei hystyried, beth ddylai ei gynnwys, a'r camau y gall y CBC eu cymryd i ymateb i ddeiseb.

Holwyd pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i hyrwyddo'r Cynllun, o ystyried nad yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o fodolaeth y CBC ac Uchelgais Gogledd Cymru. Cadarnhawyd y byddai'r Cynllun yn cael ei hyrwyddo ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru, ond cydnabuwyd hefyd bod angen gwneud gwaith o ran sut y gellir gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Pwysleisiwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n galed gyda'r adnoddau oedd ganddynt ar gael ar hyn o bryd i godi ymwybyddiaeth o waith a chyfrifoldebau'r CBC, ac roedd hyn yn cynnwys rhwydweithio dyddiol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a LinkedIn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod y gwaith hwn yn cymryd amser fel sefydliad cymharol newydd, ac roedd hi'n bosibl nad oeddent wedi gallu cyrraedd pob cymuned ar draws y Gogledd.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod gan Arweinwyr yr awdurdodau lleol eu llwyfannau cyfryngau eu hunain ac y gallent gynnig cefnogaeth bellach i hyrwyddo gwaith y CBC. Cadarnhawyd y byddai Prif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru yn cael trafodaeth gyda Phrif Weithredwyr ac Arweinwyr yr awdurdodau lleol ynghylch sut y gallant gynnig y cymorth hwn, yn enwedig o ystyried pa mor bwysig yw hyrwyddo'r Cynllun hwn.

Cydnabuwyd ymhellach fod gan Uchelgais Gogledd Cymru ei Swyddog Cyfathrebu ei hun sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r timau cyfathrebu ym mhob awdurdod lleol, ac efallai y gellid defnyddio'r berthynas bresennol hon i ehangu cyfleoedd rhwydweithio.

Cadarnhawyd y byddai hyn yn gam cadarnhaol, ac efallai y byddai angen ystyried cynllun cyfathrebu neu strategaeth gyfathrebu mewn perthynas â chyhoeddi'r Cynllun Deisebau. Fodd bynnag, nodwyd nad yw rhai aelodau o'r cyhoedd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac bod angen ystyried sut mae cyrraedd yr unigolion hyn.

7. SEFYDLU IS-BWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Safonau.

Cytunwyd y byddem yn gofyn i'r awdurdodau cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol enwebu aelodau ar yr is-bwyllgor fel y nodir ym mharagraff 4.5 isod.

Cytunwyd y byddai'r CBC yn cynnal ymgyrch recriwtio allanol gyhoeddus fel bo'r angen, ac y byddai'r awdurdodau cyfansoddol yn cael gwybod am hyn fel y gallant dynnu sylw aelodau annibynnol eu Pwyllgorau Safonau rhag ofn y byddai unrhyw un ohonynt yn gymwys ac â diddordeb mewn gwneud cais.

Cytunwyd ar yr amserlen a'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau Annibynnol fel y nodir ym mharagraffau 4.6 a 4.7 yr adroddiad hwn, ac awdurdodwyd y Swyddog Monitro i a) ei diwygio os oes angen a b) sefydlu a phenodi panel penodi yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, ac eglurwyd trefniant yr Is-bwyllgor i'r aelodau. Nodwyd y byddai'r Is-bwyllgor yn cynnwys aelodau annibynnol ac aelodau cyngor, gyda'r aelodau annibynnol yn ffurfio'r mwyafrif. Adroddwyd y byddem yn gofyn i'r awdurdodau cyfansoddol enwebu aelodau cyngor ac aelodau annibynnol ar gyfer yr Is-bwyllgor, ond bod rhaid i'r CBC hefyd hysbysebu'n allanol am aelodau annibynnol.

Nodwyd yr amserlen a'r broses recriwtio, a nodwyd y byddai angen addasu'r amserlenni gan fod rhai o'r amserlenni eisoes wedi llithro. Cadarnhawyd y byddai'r Swyddog Monitro yn addasu'r amserlenni hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam y bydd awdurdodau cyfansoddol yn cynnig enwebiadau ar gyfer aelodau annibynnol yn y lle cyntaf, eglurwyd bod trafodaethau gyda'r swyddog monitro o bob cyngor cyfansoddol wedi dangos y byddai enwebu aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyngor cyfansoddol eu hunain yn cyflymu'r broses ac yn sicrhau bod gennym aelodau sydd â phrofiad perthnasol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod rhaid i'r CBC hysbysebu'n allanol am aelodau annibynnol ynghyd â cheisio enwebiadau gan y cynghorau cyfansoddol. Esboniwyd y byddai angen proses ddethol pe bai'r CBC yn derbyn mwy o enwebiadau nag oedd eu hangen.

Eglurwyd y byddai cyfnod rhesymol o amser, yn ôl disgresiwn y Swyddog Monitro, yn cael ei ganiatáu ar gyfer derbyn enwebiadau, ac os na dderbynnir enwebiadau, byddai'r broses

enwebu yn cael ei hailystyried. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd hysbysebu mor eang â phosibl.

8. NEWIDIADAU YN AELODAETH IS-BWYLLGORAU'R CBC A PHENODI AELOD LLEYG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Nodwyd bod y Cynghorydd Hugh Evans, fel Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, yn aelod o'r CBC a'i Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn rhinwedd y swydd honno.

Nodwyd penodiadau'r Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024, sef y Cynghorydd James Elson i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'r Cynghorydd Geraint Lloyd Williams i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol.

Penodwyd Dewi Lewis yn aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o bedair blynedd o'r dyddiad y daw'r penodiad i rym, yn amodol ar gwblhau'r cytundeb cyfethol perthnasol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan gadarnhau ei fod yn ymwneud â newidiadau diweddar yn aelodaeth y CBC ei hun a'i Is-bwyllgorau yn dilyn newidiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â phenodi aelod lleyg newydd i Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC.

Adroddwyd mai'r Cynghorydd Hugh Evans oedd arweinydd newydd Cyngor Sir Ddinbych ac felly daeth yn aelod o'r CBC a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn awtomatig. Cadarnhawyd hefyd fod y Cynghorydd James Elson wedi'i benodi i Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC a'r Cynghorydd Geraint Lloyd Williams wedi'i benodi i Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y CBC, yn dilyn newidiadau portffolio yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Adroddwyd bod Dewi Lewis wedi cael ei enwebu gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, oherwydd bod sedd wag wedi ymddiswyddiad aelod lleyg blaenorol. Hysbyswyd yr Aelodau, yn wahanol i'r penodiadau a nodir uchod, fod angen penodiad ffurfiol gan y CBC ar y penodiad hwn. Nodwyd hefyd fod CV Dewi Lewis wedi cael ei rannu'n gyfrinachol gyda'r aelodau cyn y cyfarfod ond y byddai'n rhaid i'r cyfarfod symud i ran dau os oeddent eisiau trafod y CV.

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Hugh Evans, a chadarnhawyd bod yr aelodau'n fodlon â'r enwebiad a gyflwynwyd ac nad oeddent am drafod y CV yn fanylach.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 10:05

_____

(Cadeirydd)